

Pwyllgor Bywyd a Thystiolaeth Henaduriaeth Arfon – trafodaeth ar argymhellion **Cydgynulliad yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru.**

Bu i Henaduriaeth Arfon ystyried argymhellion **Cydgynulliad yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru** i'r 'pum Eglwys Gyfamodol i feddwl amdanynt eu hunain fel yr Eglwys yn Uno yng Nghymru' mewn Pwyllgor Gwaith Arbennig gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2013; yna yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Bywyd a Thystiolaeth (gw. 04/13 t. 12) penderfynwyd darparu cyfle pellach i drafod hyn, a hynny dan arweiniad y Parchg Marcus Robinson yn Seilo ar 30 Medi 2013 am 7 o'r gloch yr hwyr.

Daeth 26 o aelodau'r henaduriaeth i'r cyfarfod a lywyddwyd gan y Parchg Deian Evans. Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Parchg Eric Jones, Mrs Pat Parry, y Parchg Gwenda Richards a Mr David Elwyn Williams. Wedi arwain mewn gweddi a chrosawu pawb ynghyd crynhodd y Llywydd gefndir y drafodaeth o fewn yr Henaduriaeth (gw. 02/13 t.) cyn cyflwyno'r llawr i'r Parchg Marcus Robinson.

Atgoffodd y Parchg Marcus Robinson y cyfarfod o ymrwymiad y Cyfundeb i ddatganiad Trefeca, 1975 pryd y cytunwyd i weithio tuag at sefydlu '*un Eglwys weledig i wasanaethu gyda'n gilydd mewn cenhadaeth er gogoniant Duw Dad*'. Roedd yr egwyddor sylfaenol eisoes wedi ei derbyn gan y Corff, meddai, ond bellach roedd yn rhaid ystyried y ffordd o wireddu hynny'n ymarferol.

Crynhodd yr ymatebion yr oedd eisoes wedi eu derbyn fel Swyddog Ewmenaid y Cyfundeb gan wahanol henaduriaethau i argymhellion y Cydgynulliad, sef

- y bydd gan yr Eglwys yn Uno naw awdurdodaeth – y chwe esgobaeth Anglicanaidd bresennol ynghyd ag awdurdodaeth Fethodistaidd, awdurdodaeth Bresbyteraidd ac awdurdodaeth Ddiwygiedig Unedig/Fedyddiedig Gyfamodol, a wahoddir i ethol esgob bob un;
- llunio disgrifiad o swyddogaeth yr esgob y bydd pob un o'r pum Eglwys Gyfamodol yn gytûn arno;

- cysegru'r esgob i'r hen olyniaeth esgobol, hynny yw, ei ordeinio trwy arddodiad dwylo gan o leiaf dri esgob sydd eu hunain yn rhan o'r hen olyniaeth esgobol;
- mai'r esgob fydd yn ordeinio pawb sydd i fod yn weinidog oddi mewn i'w awdurdodaeth;
- y bydd yr esgob yn esgob yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru ac y bydd yn rhannu colegoldeb a chyflawn gydgyfnewid â holl esgobion eraill yr Eglwys honno;
- y bydd esgobion y naw awdurdodaeth yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru yn ymgynghori â'i gilydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn;
- bod yr holl weinidogion presennol yn cytuno i dderbyn arddodiad dwylo gan o leiaf un esgob Anglicanaidd ac o leiaf un esgob yn cynrychioli'r traddodiadau eraill yn yr Eglwys yn Uno yng Nghymru. Ystyrid hyn nid yn ordeinio esgobol ond yn gam ymlaen i weinidogaeth gyfamodol lawn.

Yn gyffredinol, meddai, cafwyd fod croeso i'r egwyddor o uno, yn enwedig yn wyneb y prinder affwysol o weinidogion ar draws yr enwadau, ond ar yr un pryd yr oedd rhai pryderon amlwg yn peri gofid i'r henaduriaethau, megis egwyddor esgobyddiaeth a'r gofyn i ail-ordeinio, diffyg cyfartaledd rhwng marchod a dynion gyda golwg ar esgobyddiaeth, sefyllfa'r Gymraeg o fewn y cynllun arfaethedig, cost y cynllun, lle blaenoriaid a phregethwyr llewg o fewn y cynllun, sut y gellid cynnwys yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr, a pherygl anghydbwysedd o safbwynt yr awdurdodaethau gan y byddai'r chew esgobaeth Anglicanaidd yn parhau.

Fodd bynnag, yr oedd rhai o'r pryderon hyn eisoes wedi cael eu hystyried gan y Comisiwn; gwnaed yn eglur y bydd pob gweinidog yn cael ei ordeinio i'r sefyllfa newydd drwy arddodiad dwylo, ac nad ail-ordeinio rhai na fu iddynt dderbyn ordeiniad gan esgob oedd y nod. Nid oes dim ychwaith sy'n rhwystro eglwysi Annibynnol neu Fedyddiedig rhag dod yn rhan o'r eglwys sydd yn uno, ond oherwydd eu trefn gynulleidfaol byddai'n rhaid iddynt uno fel eglwysi unigol yn hytrach nag fel enwad. Yn ddiweddar hefyd penderfynodd yr Eglwys yng Nghymru o blaid ordeinio marchod yn esgobion.

Er mwyn gwahodd ymateb o'r llawr holodd y Parchg Marcus Robinson beth oedd barn y cyfarfod parthed yr egwyddor o uno; a oedd ymdeimlad y gellid

mynd ymlaen i ystyried y cynllun presennol ymhellach neu a ddylid meddwl am ryw gynllun gwahanol? Mynegwyd cefnogaeth i'r egwyddor o uno, yn enwedig o ystyried sefyllfa gyffelyb y pum enwad o ran dirywiad a diffyg adnoddau, ac mai'r nod oedd galluogi cenhadaeth fwy effeithiol. Holwyd, fodd bynnag, sut yn union y dichon uno â'i gilydd gryfhau'r enwadau anghydfurfiol a mynegwyd pryder y gallai'r dreftadaeth Gymraeg anghydfurfiol fynd i golli wrth i Anglicaniaeth ddod i ddominyddu'r sefyllfa newydd. Ar y cyfan, er hynny, yr oedd ymdeimlad yn y cyfarfod y dylid mynd ymlaen i ystyried y cynllun arfaethedig ymhellach.

Mynegwyd syndod hefyd fod cyn lleied wedi newid ers datganiad Trefeca, 1975, a chyfeiriwyd at y modd yr oedd yr Eglwys Babyddol hithau yn ceisio newid yn dilyn Ail Gyngor y Fatican, 1962. Holwyd a oedd y drafodaeth yn mynd rhagddi ymysg yr enwadau eraill, ac a ddylai eglwysi lleol yr henaduriaeth roi sylw i'r pwnc? Ymatebodd y Parchg Marcus Robinson fod pob croeso i'r cynulleidfaoedd lleol wyntyllu'r argymhellion, er mai drwy'r blaenoriaid a'r henaduriaethau y byddai ymateb y Cyfundeb yn cael ei dderbyn. Gallai ddarparu pwyntiau trafod ar gyfer yr eglwys meddai, a phwysleisiodd y Parchg Deian Evans y gellid eu gosod hefyd, ynghyd â chrynodeb o'r drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod, ar wefan yr Henaduriaeth.

Diolchodd y Parchg Deian Evans i'r Parchg Marcus Robinson am agoriad doeth a llawn gwybodaeth, a daeth y cyfarfod i ben am wyth o'r gloch drwy gyd-adrodd y Fendith Apostolaidd.

Y Parchg Elwyn Richards